Iacháu wrth y pwll (pwll Bethesda / Bethsatha) Ioan 5: 1-24

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Ioan 5: 1-24		
1	Yn Jerwsalem wrth ymyl Giât y Defaid mae pwll o'r enw Bethsatha (mae rhai yn ei alw'n Bethesda). Roedd nifer fawr o bobl anabl yn gorwedd yno — rhai yn ddall, eraill yn gloff neu wedi eu parlysu.		
2	Roedd y bobl yn credu y byddai Duw yn cyffroi'r dŵr bob hyn a hyn, ac y byddai'r cyntaf i gyrraedd y dŵr yn cael ei wella.		
3	Roedd un dyn yno oedd wedi bod yn anabl ers tri deg wyth o flynyddoedd. Gwelodd Iesu e'n gorwedd yno a gofynnodd iddo, "Wyt ti eisiau gwella?"		

4	“Syr,” meddai'r dyn, “does gen i neb i'm helpu i fynd i mewn i'r pwll pan mae'r dŵr yn cyffroi. Tra dw i'n ceisio mynd i mewn, mae rhywun arall yn llwyddo i gyrraedd o mlaen i.” Yna dwedodd Iesu wrtho, “Saf ar dy draed! Cod dy fatras a cherdda.”	
5	A dyma'r dyn yn cael ei wella ar unwaith; cododd ei fatras a dechrau cerdded.	
6	Digwyddodd hyn ar ddydd Saboth yr Iddewon, felly dyma'r arweinwyr Iddewig yn dweud wrth y dyn, “Mae'n ddydd Saboth heddiw; rwyt ti'n torri'r gyfraith wrth gario dy fatras!” Ond atebodd, “Ond y dyn wnaeth fy iacháu i — dwedodd wrtho i, ‘Cod dy fatras a cherdda.’” Felly dyma nhw'n gofyn iddo, “Pwy ydy'r dyn ddwedodd hynny wrthot ti?” Ond doedd gan y dyn gafodd ei iacháu ddim syniad, ac roedd Iesu wedi llithro i ffwrdd am fod tyrfa fawr wedi casglu yno.	
7	Yn nes ymlaen daeth Iesu o hyd i'r dyn yn y deml, a dweud wrtho, “Edrych, rwyt ti bellach yn iach. Stopia bechu neu gallai rhywbeth gwaeth ddigwydd i ti.”	

8	Aeth y dyn a dweud wrth yr arweinwyr mai Iesu oedd wedi ei wella.	
9	Dyna pam dechreuodd yr arweinwyr lddewig erlid Iesu — am ei fod yn gwneud pethau fel hyn ar y dydd Saboth.	
10	Ond dwedodd Iesu: “Mae fy Nhad yn dal i weithio drwy'r amser, felly dw innau'n gweithio hefyd.”	
11	Am iddo ddweud hyn roedd yr arweinwyr crefyddol yn ceisio'n galetach fyth i'w ladd; doedd e ddim yn unig yn torri rheolau'r dydd Saboth, roedd hefyd yn galw Duw yn Dad iddo'i hun, a gwneud ei hun yn gyfartal â Duw.	

12	Dwedodd Iesu wrthyn nhw: “Mae'r Tad yn caru'r Mab ac yn dangos iddo bopeth mae'n ei wneud. Bydda i'n gwneud pethau mwy na iacháu'r dyn yma — pethau fydd yn eich syfrdanu chi hyd yn oed! Dydy'r Tad ddim yn barnu neb — mae wedi rhoi'r awdurdod i farnu yng ngofal y Mab, er mwyn i bawb anrhydeddu'r Mab yn union fel y maen nhw'n anrhydeddu'r Tad. Pwy bynnag sy'n gwrthod anrhydeddu'r Mab, mae hefyd yn gwrthod anrhydeddu Duw'r Tad anfonodd y Mab i'r byd.	
13	Credwch chi fi, mae bywyd tragwyddol gan y rhai sy'n gwrando ar beth dw i'n ei ddweud, ac yn credu yn Nuw wnaeth fy anfon i. Dyn nhw ddim yn cael eu condemnio; maen nhw wedi croesi o fod yn farw i fod yn fyw."	
14	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	